

# Llysgenhadon

“Felly cenhadon dros Crist ydym ni.”

## Beth am ddarllen 2 Corinthiaid 5:11–21 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i feddwl am yr hyn sydd yn oblygedig mewn bod yn ddinesydd y nefoedd. Mae pob dinesydd i fod yn llysgennad. Felly, llysgenhadon Crist ydym. Llysgenhadon? Cynrychiolwyr personol ein brenin nefol. Mae ffyddlondeb llysgennad yn gyntaf i’w wlad ei hun ac i bennaeth ei wladwriaeth. Er enghraifft, mae llysgennad yr Unol Daleithiau ym Mhrydain yn byw yn Llundain, ond mae’n ddinesydd yr Unol Daleithiau, ac mae ei gariad a’i ffyddlondeb i’w gartref.

Mae’n fraint aruchel i fod yn llysgennad, ond mae yna beryglon hefyd ynglŷn â’r swydd. Yn ôl yr Arglwydd Templewood yn ei lyfr *Ambassador on a Special Mission*, un o’r peryglon y mae llysgennad yn ei wynebu yw aros yn rhy hir yn y wlad lle y’i danfonwyd. Hynny yw, os nad yw’n ymweld yn gyson â’i wlad ei hun, yn anadlu awyr ei wlad ei hun, yn ei ailatgoffa ei hunan o draddodiad a diwylliant ei wlad, os nad yw yn ymwybodol o’r cyfan sydd yn mynd ymlaen yn ei wlad, yn fuan iawn mae’n anghofio. Rhaid iddo ddychwelyd adref yn aml. Rhaid iddo gael ei atgyfnerthu trwy berthynas iach â’i dir genedigol er mwyn diogelu ei berthynas.

Sut y medrwn ni sydd yn ddinasyddion y nefoedd ein diogelu ein hunain rhag colli ein dinasyddiaeth? Sut y gallwn osgoi’r posibilrwydd yma? Rhaid i ni hefyd anadlu o awyrgylch y nefoedd drwy siarad yn aml â Duw mewn gweddi, aros yn hir uwchben yr Ysgrythurau, a gosod ein calon ar y pethau sydd uchod lle mae Crist yn eistedd ar ddeheuulaw Duw (Colosiaid 3:1). Rhaid anadlu mor aml ag sydd bosibl o awyr iach y nefoedd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eff. 6:10–20; Col. 3:1–4; 1 Cor. 7: 31; 2 Tim. 2:4

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Paul yn disgrifio ei hunan?
2. Pa ddarlun mae Paul yn ei gyflwyno i Timotheus?

## Gweddi

Arglwydd grasol, cynorthwya fi i gadw fy ngolwg ar y nefoedd. Cynorthwya fi i ddal cysylltiad agos â’r nefoedd drwy fy ngweddïau, drwy fy myfyrdod. Cynorthwya fi i anadlu o’r awyr iach sydd yno yn dy gwmmi di. Yn enw Iesu. Amen.